## Cyflwyniad

Pwrpas y daflen ffeithiau hon yw darparu arweiniad i ddarpar fusnesau sy'n ystyried datblygu cartref gofal yn Sir Gaerfyrddin.

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety yn ogystal â nyrsio a/neu ofal i wahanol grwpiau defnyddwyr gwasanaeth: Plant (Hyd at 18 oed), Oedolion o oedran gweithio (18 oed – 64 oed), Oedolion hŷn (65 oed a hŷn).

Caiff 'Llety â Chymorth' ei ddiffinio fel gwasanaeth lle mae tai, cymorth a/neu wasanaethau gofal yn cael eu darparu i helpu pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae pobl sy'n byw mewn Llety â Chymorth yn gwneud hynny fel 'Deiliaid Contract' ac o'r herwydd mae ganddynt gyfrifoldebau o dan eu contract.

## Cefndir

Fel datblygwr efallai y byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i'r awdurdod lleol, fel rhan o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gynnal asesiad anghenion poblogaeth o bryd i'w gilydd. Pwrpas yr asesiad anghenion poblogaeth hwn yw darparu golwg â ffocws ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru. Ar ôl cwblhau'r asesiad o anghenion poblogaeth, rhaid paratoi cynllun ardal sy'n dangos sut mae awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diwallu anghenion y boblogaeth.

Yn ogystal, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi dogfen o'r enw adroddiad sefydlogrwydd y farchnad, sy'n cynnwys dau asesiad rhyng-gysylltiedig: asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoledig sy'n cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal.
I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, ewch i Llyfrgell Ddogfennau – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Ymhellach, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol hefyd gydymffurfio â'r cod ymarfer ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: côd ymarfer

Yng ngoleuni'r uchod, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi cynllun cynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol sy'n dwyn ynghyd datganiad sefyllfa lefel uchel ynghylch y cyflenwad a'r galw, a hynny mewn perthynas â'r gofal a'r gefnogaeth ar gyfer pobl hŷn, oedolion oedran gweithio, plant a phobl ifanc.

### Beth fydd yn digwydd os bydd datblygwr arfaethedig yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas â chartref gofal.

O ganlyniad i rwymedigaethau'r awdurdod lleol a nodir yn yr adran gefndir uchod, bydd adran gynllunio'r awdurdod lleol yn trafod unrhyw gais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas ag unrhyw gartref gofal gydag adran gomisiynu'r awdurdod lleol.

Mae'n bwysig bod datblygwyr yn ymwybodol bod risg na fydd yr awdurdod lleol yn comisiynu'r ddarpariaeth benodol sy'n cael ei chynnig. Felly, mae'n bwysig bod

datblygwyr yn cysylltu ag adran gomisiynu'r Awdurdod Lleol yn uniongyrchol i drafod eu cynnig. Rydym yn annog cysylltu cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion yr Awdurdod Lleol.

Gofynnir i chi e-bostio eich cynnig i'r tîm comisiynu: SCHHContracting@sirgar.gov.uk